


Ymarfer da wrth ddarllen

- Wrth i chi ddarllen, crynhowch y cynnwys a'ch meddyliau mewn nodiadau byr ar **noduadau post-it** a'u gludo dros yr adran berthnasol:



Y Dull SQ4R

- Mae'r dull SQ4R yn ddull systematig o ddarllen yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'n rhannu'r weithred o ddarllen yn **chwe cham syml**. Arolygu, Cwestiynu, Darllen, Adrodd, Adolygu, ac Adfyfrio. Os ydych yn ei chael yn anodd canfod gwybodaeth o destun, rhowch gynnig ar y Dull SQ4R.

Adolygu ac edrych dros eich gwaith

- **Cadwch gofnod** o bopeth yr ydych wedi ei ddarllen a lle cawsoch ef, a'ch syniadau amdano.
- Rhowch gynnig ar ddefnyddio'r **ffurflen adolygu** isod i roi trefn ar eich meddyliau am yr erthygl.

Ffurflen Adolygu

Sgôr (allan o 5):



Enw'r Erthygl:

Erthygl:		Tudalennau:	
Cyfrol (i):	doi:		
Awdur(on):			
		Dyddiad:	
Geiriau allweddol:		Nodiadau:	
Crynodeb:			

- **Ymatebwch i'r testun**, meddyliwch am yr hyn rydych yn ei ddarllen, gan bwysu a mesur pa mor berthnasol ydyw. Gofynnwch i chi'ch hun, er enghraifft, "Beth mae'n ei ddweud?" "Beth ydw i'n ei feddwl am hyn?" "Alla i grynhoi hyn mewn deg gair?" a chofnodwch eich meddyliau.

- Os oes geiriau, symbolau neu fyrfoddau rydych yn eu hanghofio neu'n drysu rhyngddynt yn rheolaidd, lluniwch dalen atgoffa - nodiadau bach y gellwch gyfeirio atynt i gael gwybodaeth bwysig.

